PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhaglen Cyfranogiad Plant yng Nghymru 2024/25

## Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Rhaglen LLysgenhadon



llyw.cymru

# Cynnwys

**Cyd-destun** **1**
Meysydd thematig wedi'u harchwilio gyda dysgwyr ar draws pob lleoliad 1

**1. Amdanoch chi yn yr ysgol** **3**
Ymarfer perthynol 3
Amgylchedd yr Ysgol 4
Cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn prosesau ADY 6
Iaith a Hawliau Plant 8

**2. Ynglŷn â'ch ysgol** **9**
Hapusrwydd yn yr ysgol 9
Cymryd rhan yn yr ysgol 10

**3. Ynglŷn â'ch dyfodol** **11**
Dyheadau Addysgol 11
Cymryd rhan y tu allan i'r ysgol 12

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52867, ISBN digidol 978-1-80633-599-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cyd-destun

Fel rhan o werthusiad ar raddfa fawr o'r Ddeddf ADY newydd, comisiynwyd Plant yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru i weithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysgol ledled Cymru, gan gynnwys lleoliadau cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg, a darpariaeth gan awdurdod lleol ar gyfer un dosbarth arbenigol i ddysgwyr ag ADY. Fe wnaethom ymgysylltu â 4 lleoliad, cyflwyno 36 o sesiynau a gweithio gyda 33 o ddysgwyr ADY rhwng 6-16 oed.

Pwrpas y gwaith oedd gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysg i gasglu eu profiadau o'r Ddeddf ADY newydd. Ar gyfer y rhaglen waith hon, gwnaethom archwilio meysydd thematig sy'n cyd-fynd yn benodol â'r Ddeddf/Cod ADY Cymru. Wrth gasglu barn a phrofiadau plant a phobl ifanc, aethom ati i ddefnyddio dull amlfodd, creadigol, llyfn a chyfranogol. Cafodd adborth ei gasglu mewn sesiynau grŵp, grwpiau ffocws bach, a chyfweliadau un-i-un fel rhan o archwiliad dwfn i'r meysydd thematig.

Pwrpas y rhaglen waith hon oedd galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried barn plant a phobl ifanc yn ystyrlon wrth gynllunio a chyflwyno polisïau a gwasanaethau, a rhoi hawliau plant wrth wraidd cynllunio a darparu gwasanaethau, wrth lywio'r rhaglen ymchwil a gwerthuso parhaus ehangach ar weithredu'r system ADY.

## Meysydd thematig wedi'u harchwilio gyda dysgwyr ar draws pob lleoliad

Mae 3 blaenoriaeth thematig y cytunwyd arnyn nhw â Llywodraeth Cymru yn sail i'n rhaglen waith.

### 1. Amdanoch chi yn yr ysgol:

- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gan Blant a Phobl Ifanc o sut mae eu hanghenion yn cael eu diwallu gan ymarferwyr, yr hawliau, y Cynllun Datblygu Unigol (CDU) a'r gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw, fel Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol.
- Barn gan Blant a Phobl Ifanc ynghylch a yw eu Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol yn bodloni eu hanghenion.
- Y defnydd o Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol mewn prosesau ADY trwy ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fel cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Unigol.
- Barn gan Blant a Phobl Ifanc ynghylch a yw eu dewisiadau iaith yn cael eu diwallu, e.e. a yw Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar gael yn Gymraeg ai peidio.

## 2. Ynglŷn â'ch ysgol:

- A yw plant a phobl ifanc yn hapus gyda'u profiadau addysgol ac a ydyn nhw'n teimlo eu bod yn dysgu, yn datblygu ac yn gwneud cynnydd?
- Ydyn nhw am gymryd rhan yn yr ysgol/coleg?
- A yw plant a phobl ifanc yn teimlo bod yr ysgol/coleg yn eu helpu i ddatblygu perthnasoedd cymdeithasol cadarnhaol, gwydnwch emosiynol a sefydlogrwydd?

## 3. Ynglŷn â'ch dyfodol:

- Beth yw dyheadau plant a phobl ifanc ar gyfer addysg bellach, ar gyfer cyflogaeth?
- Ydyn nhw'n teimlo y gallant gyflawni'r nodau hyn?
- A yw plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol/coleg?
- A yw'r ysgol/coleg yn helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn (e.e. mwy o hyder, cymorth ymarferol)?



# 1. Amdanoch chi yn yr ysgol

## Ymarfer perthynol

Pan ofynnwyd iddyn nhw a oedden nhw'n teimlo bod athrawon yn diwallu eu hanghenion, amlygodd adborth dysgwyr mai po gryfaf oedd eu **perthnasoedd**, ty mwyaf y gallai dysgwyr ddweud bod eu hanghenion wedi'u diwallu. Pan ofynnwyd iddyn nhw ba fath o athrawon oedd wedi diwallu eu hanghenion, canolbwyntiodd y dysgwyr ar rinweddau personol athrawon gan ddweud, *"Athrawon caredig, doniol, sy'n barod i ymddiried; rhywun y gallwch chi ddangos iddyn nhw eich bod yn fregus ac sy'n gwneud i'r ysgol deimlo'n ddiogel'*. Dywedodd y dysgwyr fod athrawon sy'n dod o hyd i ffyrdd o gysylltu â nhw, eu hysbrydoli a chynnig dewisiadau, wedi ennyn y gorau ynddynt.

Pan oedden nhw'n teimlo y gwrandewir arnyn nhw, roedden nhw hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a bod eu barn wedi'i chymryd o ddifrif. Roedd rhai dysgwyr yn cyfaddef eu bod yn teimlo'n nerfus yng nghwmni athrawon, gan achosi iddyn nhw fynegi teimladau o rwystredigaeth, hunan-barch isel ac ymddieithriad. Dywedon nhw nad oedd athrawon sy'n *"rhy lym, yn gweiddi ac nad ydyn nhw'n caniatáu digon o amser i gwblhau'r gwaith"*, yn diwallu eu hanghenion. Disgrifiodd y dysgwyr eu bod yn teimlo eu bod yn fwyaf ymgysylltiedig pan oedden nhw wedi teimlo eu bod yn cael eu **gweld,** eu **parchu** a'u **gwerthfawrogi**. Adroddon nhw eu bod yn gallu profi ymdeimlad o falchder a dathlu eu cryfderau, datblygu mwy o hunan-barch a hyder ar hyd y ffordd. Dywedodd y dysgwyr fod canmoliaeth ac **addysgu wedi'i bersonoli** wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hunan-barch, eu dysgu a'u hymgysylltiad cyffredinol yn yr ysgol. Dywedon nhw, *"Mewn mathemateg, mae'r athro yn rhoi canmoliaeth i mi, yn sylwi arnaf, mae'n garedig. Mae athrawon eraill mor oddefgar, ac maen nhw'n gwneud ymdrech fawr er mwyn sicrhau fy mod i'n deall y gwaith. Rwy'n gwybod eu bod nhw eisiau i'r ysgol fod yn* ***lle diogel*** *i mi ac maen nhw fy eisiau i yn eu hystafell ddosbarth'*. Roedd y **dull cynhwysol** hwn yn meithrin hinsawdd ddysgu fwy llyfn, adweithiol ac optimistaidd i dysgwyr.

Er bod dysgwyr wedi mynegi eu bod wedi cael perthynas gadarnhaol ag athrawon, dywedon nhw fod perthynas gwael â rhai athrawon wedi arwain at deimladau gwael, bod eu hanghenion heb eu diwallu a theimladau o ymddieithrio. Disgrifiodd un dysgwyr yr effaith a gafodd perthnasoedd o'r fath arnyn nhw. *'Dwi ddim yn gallu dweud jôc wrthi, mae hi wastad yn wgus ac yn ddigalon. Nid yw'n amgylchedd pleserus i fod ynddo'*. Dywedodd y dysgwyr fod teimlo **bod yn gallu gofyn am gefnogaeth** yn gam pwysig i gael y cymorth yr oedd ei angen arnyn nhw. Er mwyn gallu ymddiried y bydd yr hyn a

ddywedon nhw, yn cael ei weithredu. Soniodd un dysgwyr am yr effaith yr oedd gallu gofyn am help yn ei olygu iddyn nhw, *'Mae gen i'r dewrder i ofyn am help nawr, ond dyw hyn ddim wedi bod yn wir erioed, mae wedi cymryd blynyddoedd i mi fagu'r dewrder hwn''*. Mynegodd y dysgwyr y rhyddhad roedden nhw'n eu teimlo o gyrraedd sefyllfa lle roedden nhw'n cael eu gweld a'u clywed gan athrawon, mewn ffyrdd mwy teg a chynhwysol, *'Rwy'n teimlo fel fy mod i wedi bod yn ymladd ers blynyddoedd, ond nawr, o'r diwedd, dwi mewn sefyllfa lle rwy'n teimlo 'mod i'n cael fy nghlywed, rwy'n teimlo bron yn gyfartal â phlant normal eraill o ran sut rydyn ni'n cael ein trin. O'r blaen doedden nhw ddim yn fy ngweld i, roeddwn i'n cael fy anwybyddu. Roeddwn i am iddyn nhw fy nghlywed i'.*

## Ffactorau Allweddol

- Cysylltiadau perthynol iach rhwng dysgwr ac athrawon
- Croesawu bod yn fregus
- Mannau diogel
- Amgylchedd cynhwysol
- Blaenoriaethu anghenion unigol

## Amgylchedd yr Ysgol

Nododd y dysgwr fod eu hanghenion yn cael eu diwallu trwy ddefnyddio **strategaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**,gan gynnwys ymyrraeth un-i-un, ymyrraeth gydweithredol, ymyriadau ymddygiadol, ymyrraeth yn yr ystafell ddosbarth ac ymyriadau cymdeithasol, emosiynol a lles. Dywedon nhw fod ymyriadau un i un a chydweithredol wedi caniatáu iddyn nhw deimlo'n fwy hamddenol ac yn llai hunan-ymwybodol yn y dosbarth fel eu bod nhw'n teimlo'n fwy cymwys i gymryd rhan, datblygu a chymryd rhan mewn dysgu. Dywedodd un dysgwr *'Mae'n well gen **i ymyriadau grŵp bach** oherwydd mae gen i fwy o amser i wneud y gwaith, ac rwy'n teimlo'n fwy hyderus. Mewn dosbarth mwy byddaf yn gwrthod darllen'.*

Dywedodd eraill fod **ymddygiad sy'n cefnogi ymyrraeth** ac athrawon sy'n defnyddio dulliau mewn ffyrdd a oedd yn teimlo'n bersonol iddyn nhw, yn eu cefnogi yn yr ysgol. Mae'r modd y mae athrawon yn ymateb yn ddilys ac yn hyblyg, yn golygu eu bod yn teimlo y gwrandewir arnyn nhw, eu bod yn cael eu deall yn well, yn gallu ymdopi'n well, yn datblygu gwell gwydnwch ac yn ail-ffocysu eu hymddygiad mewn ffyrdd cadarnhaol. Rhannodd un dysgwr eu profiadau o athro yn **deall eu hanghenion** trwy ymateb mewn ffyrdd yr oedd eu hangen ar y dysgwr. Dywedon nhw *'Fe wnaeth yr athro sefyll gyda fi a gadael i mi dawelu yn fy amser fy hun, ond nid yw athrawon sy'n fy herio a'm pryfocio yn helpu. Mae geni i hyd yn oed frawddegau bachog ar eu cyfer fel ewch i ffwrdd oddi wrtha i'.*

Rhoddodd cefnogaeth a oedd yn teimlo'n **bwrpasol ac yn hygyrch**, gyfleoedd i rai dysgwr ddatblygu eu hannibyniaeth. Dywedodd un dysgwr mai *'cefnogaeth dda i mi yw gwybod eich bod o gwmpas. Os yw pobl yn fy nghyffwrdd, rwy'n teimlo'n clawstroffobig, dydw i ddim eisiau'r gefnogaeth honno. Dwi dim ond eu hangen nhw i fod o gwmpas pan dwi angen hynny'*. Adroddodd dysgwr ac athrawon fod teimlo eu bod yn gallu bod yn agored ac yn onest yn bwysig, ac wedi arwain at fwy o anghenion yn cael eu diwallu. Fe wnaeth un athro sylwadau ynghylch eu perthynas â dysgwr a dweud *'Rwy'n eu hadnabod yn llwyr. Os ydw i'n gwneud camgymeriad maen nhw'n dweud wrthyf'*. Roedd athrawon a oedd yn modelu

bregusrwydd ac yn deall ei bod yn iawn i wneud camgymeriad weithiau, yn dangos i ddysgwyr y parodrwydd i wrando, parch a bod barn dysgwyr wedi cael eu hystyried yn ystyrlon.

Yr hyn a ddaeth i'r amlwg trwy ein gwaith oedd nad oedd gan rai dysgwyr yr hyder neu roedden nhw'n teimlo na allai ysgolion ddiwallu eu hanghenion. Er bod dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod athrawon yn gwneud eu gorau, roedden nhw'n teimlo **nad oedd** gan ysgolion **gapasiti ac adnoddau** ddigonol i ddiwallu eu hanghenion. Roedd eraill yn teimlo bod eu ADY yn rhy gymhleth ac nad oedd gan yr ysgol honno'r adnoddau angenrheidiol i weithio gyda nhw. Mewn cyfweliad gydag un dysgwyr, dywedon nhw *'Dwi ddim yn meddwl bod gan yr ysgol y gallu i ddelio â phobl fel fi'*. Roedd eraill yn deall y pwysau a'r heriau yn yr ystafell ddosbarth ac yn dweud, *'Mae ganddyn nhw gannoedd o bobl i'w cefnogi yma, maen nhw'n gwneud eu gorau'*. Roedd rhai dysgwyr yn nodi ac yn cyfaddef mai dyma'r rhesymau sy'n eu hatal rhag gofyn am gymorth, gan eu bod yn teimlo bod lefel rhy uchel o angen yn yr ystafell am fod dysgwyr eraill hefyd angen cefnogaeth. Dywedodd rhai dysgwyr fod eu hamgylchedd a'u perthynas â chyfoedion ac athrawon yn golygu nad oedden nhw'n gallu gofyn am help yn y dosbarth. Maen nhw'n poeni am oblygiadau gofyn am help ac yn lle hynny byddant yn troi at gyfoedion dibynadwy i'w cefnogi. Dywedodd un dysgwr, *'Dwi ddim yn gofyn am help rhag ofn eu bod yn meddwl fy mod i'n rhyfedd neu'n dwp'*. O ganlyniad, mae rhai dysgwri on wedi rhoi'r gorau i bynciau pan nad oedden nhw'n gallu gofyn am gefnogaeth. Lle'r oedd dysgwyr yn gallu gofyn am gefnogaeth, arweiniodd at fwy o hunan-barch, lles, dysgu a datblygiad.

Er nad oedd gan ddysgwyr ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o **derminoleg ADY**, roedden nhw'n gallu nodi'r cymorth a oedd ar gael iddyn nhw a sut roedd y cymorth hwn yn diwallu eu hanghenion. Yn ogystal â'r defnydd o ymyrraeth wedi'i dargedu, dywedodd dysgwyr fod **manteisio ar adnoddau ystafell ddosbarth** fel matiau bwrdd gwyn, amserlenni a thechnoleg yn cefnogi eu hanghenion. Rhannodd un dysgwyr fod **manteisio ar dechnoleg** wedi lliniaru rhwystrau yn eu dysgu ac yn gwneud gwahaniaeth wrth ddiwallu eu hanghenion llythrennedd a'u cyfraniadau yn yr ysgol. O ganlyniad i hyn, roedden nhw bellach yn teimlo'n fwy cymwys i gyfathrebu – *'Rwy'n siarad ar gyfrifiadur sy'n gallu cynhyrchu fy syniadau a'm meddyliau i greu'r geiriau'*.

Tynnodd eraill sylw at effaith cael **cymorth un-i un** a sut mae hyn wedi golygu nad ydyn nhw ar ei hôl hi, tra bod eraill yn dweud bod **amserlen hyblyg** yn golygu y gallant osgoi traffig ysgol a dysgu gartref lle mae modd diwallu eu hanghenion corfforol. Gydag addasiadau i'w hamgylcheddau dysgu, dywedodd y dysgwyr mai mynediad at **fannau tawelach ac amgen** oedd yr hyn yr oedd ei angen arnyn nhw. Rhannodd un dysgwr sut mae amgylcheddau swnllyd yn rhwystr i'w dysgu a'u hymgysylltu *'Yn fy hen ddosbarth roedd gormod o dysgwyr. Roedd angen amser tawel arnaf'*.

## Ffactorau Allweddol

- Ymyriadau wedi'u teilwra
- Mynediad at adnoddau
- Amgylcheddau llyfn ac ymatebol
- Lefel uchel o angen

## Cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn prosesau ADY

Ar draws pob lleoliad, roedd cymhlethdod yr angen, oedran y dysgwyr a'r dewis i gymryd rhan, i gyd yn ffactorau a oedd yn aml yn golygu nad oedd gan ddysgwyr dim neu brin dim mewnbwn a chyfranogiad o ran eu **CDUau**, ac roedden nhw'n mynychu eu **cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion** am gyfnodau byr yn unig. Fodd bynnag, yn unol â pholisi ADY, roedd dysgwyr yn rhannu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o sut roedd staff addysgu yn defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gasglu barn i lywio CDUau. Er nad oedd gan ddysgwyr ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o iaith dechnegol a therminoleg ADY, yr hyn a ddaeth i'r amlwg oedd bod dysgwyr yn gallu nodi bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Roedd gan ddysgwyr lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chyfranogiad yn eu CDUau. Roedd dysgwyr oedd yn gwybod fod ganddyn nhw CDU yn rhannu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o gynnwys eu CDU gan ddweud, *'mae ganddo eich llun, enw, gwybodaeth amdanoch chi, ein cynnydd a'r hyn rydyn ni'n ei hoffi am yr ysgol'*. Roedd dysgwyr eraill yn deall bod yr wybodaeth yn berthnasol ac yn unigryw iddyn nhw, a sut mae **rhannu gwybodaeth** yn offeryn i'w gefnogi ar draws yr ysgol gyfan. Dywedon nhw, *'os oes athro yn cyflenwi, gallan nhw ei ddefnyddio i ddarganfod popeth amdanoch chi a'ch cefnogi'*. Roedden nhw'n deall ei fod yn rhywbeth a oedd yn teimlo'n **unigryw, yn bwysig ac yn unigol** iddyn nhw, gan ei ddisgrifio fel 'eu hunaniaeth'.

O ran rhai dysgwyr, roedden nhw'n teimlo bod eu CDU yn gyfle i deimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cymryd o ddifrif, a sut mae'n gweithio pan fydd hyn yn digwydd, Dywedodd un dysgwr, *'Rydych chi'n gwybod pan fydd athrawon yn trafferthu darllen eich proffiliau un dudalen oherwydd pan maen nhw'n gwneud hynny mae'n gallu bod yn ddefnyddiol iawn'*. Nid offeryn rhannu gwybodaeth yn unig ydyw, **mae'n offeryn i ddysgwyr deimlo eu bod yn cael eu clywed a gwybod eu bod yn cael eu cymryd o ddifrif**. Er bod rhai o'r farn bod eu CDU yn berthnasol ac yn bwysig wrth ddiwallu eu hanghenion, dywedodd eraill fod eu rhai nhw *'wedi dyddio a ddim yn teimlo'n berthnasol bellach'*.

Yn y rhan fwyaf o leoliadau, dywedodd staff addysgu nad yw dysgwyr yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion ac mae ganddyn nhw ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'u CDU. Mae offer casglu cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn yn cael eu defnyddio i liwio a llywio CDU. Dywedodd dysgwyr sy'n cymryd rhan yn y broses hon ei bod wedi rhoi'r cyfle iddyn nhw *'gynnig barn'* a *'theimlo'n rhan ohoni'*. Maen nhw wedi gallu myfyrio ar eu dysgu a'u datblygiad, 'y da, y drwg a'r hyll'. Soniodd y dysgwyr am **natur gydweithredol** y ffordd hon o weithio: *'mae athrawon yn fy helpu i feddwl am le rydw i'n cael trafferth, yn fy helpu i gofio, a chreu arferion gwell'*.

O ran dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion ac eisiau mynd iddyn nhw, roedden nhw'n teimlo eu bod yn gyfle i glywed am eu **cynnydd a'u twf yn yr ysgol**. Dywedodd un dysgwr, *'mae'n fy helpu i wneud yn well, i drin eraill yn well a gwella fy hun'*. Roedden nhw'n teimlo y gwrandewir arnyn nhw ac roedd y newid hwnnw'n bosibl, *"Gallaf ofyn i newid pethau fel gwersi a sut rwy'n gwneud fy ngwaith"*. Dywedodd eraill sut roedd wedi eu galluogi i fapio eu cynnydd yn yr ysgol, gan ddweud wrthym *'Rydw i wedi dod yn bell o ran darllen, ysgrifennu a siarad'*.

Er bod rhai dysgwyr yn cyfaddef nad oedden nhw'n dweud llawer mewn cyfarfodydd, gan ddweud *'Rwy'n gwrando ac yn siarad tamed bach yn bennaf'*, roedden nhw'n gallu cydnabod, y tu allan i'r cyfarfodydd hyn, y gwrandewir ar eu barn a'i bod yn cael ei chymryd o ddifrif. Dywedodd un dysgwr *'maen nhw'n gwrando pan fydda i'n siarad am newid unrhyw beth ac os oes angen mwy o help arnaf. Y llynedd doeddwn i ddim am ofyn am help, roeddwn i am fod yn annibynnol. Ond mae sgwrsio mwy gyda ffrindiau ac athrawon wedi gwneud i mi fod eisiau gofyn am help mwy eleni'*. Nododd y dysgwyr fod cyfarfodydd yn gwneud iddyn nhw deimlo'n fwy gwybodus am **benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u haddysg**, *'Fyddwn i ddim yn gwybod beth oedd yn digwydd a beth oedd yn cael ei ddweud amdanaf'*. Dywedon nhw fod teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn gallu cyfrannu wedi'u gwneud iddyn nhw deimlo'n hapusach, y gwrandewir arnyn nhw fwy a'u bod yn fwy cadarnhaol am yr ysgol. Dywedon nhw ei fod wedi bod yn gyfle i greu newid cadarnhaol yn eu bywydau, *'Rwy'n cael dweud yr hyn rwy'n ei hoffi yn yr ysgol, yr hyn rydw i eisiau a'i angen ac rwy'n cael archwilio posibiliadau'*.

Roedd rhai dysgwyr yn cyfaddef nad oedden nhw bob amser yn gallu dweud y gwir, neu nad oedd trafodaethau yn teimlo'n bwysig ac yn berthnasol iddyn nhw. Dywedodd rhai nad oedd ganddyn nhw **eglurder ynghylch pwrpas** eu cyfarfodydd, *'Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd pwrpas y cyfarfod, felly doedd gen i ddim diddordeb mynd iddo'*. Roedd dysgwyr eraill yn teimlo'n anhapus am y newidiadau sy'n effeithio ar eu bywyd ac yn disgrifio eu bod yn teimlo'n rhwystredig ac yn ofidus yn ystod sgyrsiau ynghylch pontio i'r 6ed dosbarth. Dywedon nhw *'Dyw cyfarfodydd ddim yn ddefnyddiol, maen nhw'n achosi gofid – nid oes unrhyw newid yn dod yn eu sgil, maen nhw'n gwneud eich bywyd yn annifyr. Mae yna bobl anghyfarwydd nad oes gennych chi berthynas â nhw'*. Roedden nhw'n teimlo, oherwydd diffyg adnoddau, nad oedd yn bosibl i'r ysgol eu cefnogi yn y 6ed dosbarth, fel roedden nhw'n gallu gwneud o'r blaen. Gyda llai o fynediad at eu mannau un-i-un a dynodedig blaenorol ar gael iddyn nhw, roedd y dysgwyr yn teimlo nad oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu. Tynnodd rhai sylw at sut roedd *'methu â gallu eistedd gyda ffrindiau neu deimlo nad oes unrhyw beth yn cael ei wneud am fwlio'* yn achosi iddyn nhw deimlo llai o gymhelliant i ddysgu a chymryd rhan yn yr ysgol. Tynnodd dysgwyr sylw at sut mae bwlio wedi achosi gofid iddyn nhw mewn ysgolion ond bod teimlo eu bod yn gallu rhoi gwybod am hyn a gwybod y byddai'n cael ei drin, yn ffordd i ddysgwyr ymdopi'n well. Dywedon nhw fod athrawon yn diwallu eu hanghenion trwy *'ddelio â bwlio'*.

## Ffactorau Allweddol

- Cymryd rhan mewn prosesau ADY
- Systemau cymorth unigryw ar waith
- Dulliau cydweithredol
- Teimlo y gwrandewir arnyn nhw a'u bod yn cael eu cymryd o ddifrif
- Archwilio posibiliadau a chreu newid
- Yn teimlo'n wybodus am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau

## Iaith a Hawliau Plant

Dywedodd yr holl ddysgwyr fod **dewisiadau iaith** yn cael eu darparu ac nad oedd yn bwysig iawn a oedd darpariaeth yn cael ei ddarparu yn Gymraeg. Fodd bynnag, tynnodd un dysgwr sylw at y ffaith fod athrawon nad ydyn nhw bob amser yn addysgu'n ddwyieithog wedi teimlo'n heriol iddyn nhw. Dywedon nhw *'mae'n cymryd egni ac yn gallu bod yn flinedig, yn enwedig pan mae'r geiriau'n gallu bod yn dechnegol'*.

Ar draws pob lleoliad, roedd yn ymddangos bod gan ddysgwyr ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth **o hawliau plant a phobl ifanc** o dan y System ADY newydd. Yn yr amser a neilltuwyd ar gyfer y darn hwn o waith, roedd angen mwy o ystyriaeth ac amser wedi'i neilltuo i adeiladu ar wybodaeth bresennol dysgwyr am hawliau plant fel sylfaen i hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Hawliau sydd gan blant a phobl ifanc o dan y System ADY.



# 2. Ynglŷn â'ch ysgol

## Hapusrwydd yn yr ysgol

Dywedodd dysgwr eu bod yn teimlo'n hapusaf yn yr ysgol pan oedd eu **perthynas ag athrawon a chyfoedion** yn gryf, roedden nhw wedi profi **boddhad trwy ddysgu**, wedi cael cyfleoedd i **ddathlu cryfderau**, wedi teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu, eu deall a **phrofi ymdeimlad o berthyn**.

Rhannodd un dysgwr eu profiadau gan ddweud, *'Rwy'n mwynhau troseddeg, mae gen i ddiddordeb yn y pwnc, mae'r athrawes yn cŵl, yn neis, yn garedig, mae hi'n fy neall i, mae hi'n ei deall hi, mae hi'n neilltuo amser i siarad gyda fi – y da, y drwg a'r hyll'*. Roedd dysgwyr eraill yn teimlo'n debyg a dywedon nhw fod athrawon **sy'n modelu agweddau cadarnhaol ac yn creu amgylcheddau cynhwysol** yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymgysylltiad, eu dysgu a'u datblygiad. Dywedodd un dysgwr, *'Rwyf wrth fy modd â thechnoleg bwyd; mae'n bwnc rydw i'n dysgu llawer ynddo. Mae'r athrawes yn llym ond yn barchus, mae hi'n fy neall i. Rwy'n caru athrawon rydych chi'n gwybod sy'n caru eu swydd. Os ydyn nhw'n frwd, mae'n gwneud i fi deimloi'n llawn cyffro am eu gwers'*. Roedd ffactorau eraill oedd yn cyfrannu at hapusrwydd dysgwr yn yr ysgol yn cynnwys mwy o amser yn cael ei dreulio mewn gwersi roedden nhw'n eu mwynhau, **gan gael mynediad at gymorth emosiynol a chymdeithasol, dysgu hunangyfeiriedig a threulio amser yn yr awyr agored ym myd natur**.

Tynnodd dysgwr sylw at **bwysau arholiadau** a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu lles a'u hymgysylltiad yn yr ysgol a'u bod nhw bellach yn teimlo'n llai hapus mewn pynciau roedden nhw ar un adeg wedi mwynhau ac yn teimlo'n angerddol amdanyn nhw. Dywedodd un dysgwr sydd wedi teimlo effaith pwysau arholiadau *'mae arholiadau'n gallu cymryd y llawenydd a'r hwyl allan o bynciau'*. Yn yr un modd, dywedodd dysgwyr fod trefniadau amgen wedi lleddfu'r pwysau arnyn nhw. Gwnaeth dysgwyr sylwadau eu bod nhw'n teimlo bod agweddau negyddol athrawon tuag atynt wedi effeithio ar eu hunan-barch a'u gallu i ddysgu. Dywedodd un dysgwr, *'Rwy'n ceisio peidio â barnu pobl oherwydd rwy'n meddwl dydyn nhw ddim yn cael diwrnod da ond os yw athrawon yn gyson yn negyddol, mae hyn yn gwneud rhywbeth i fy ymennydd, ac rwy'n mynd yn rhwystredig'*.

### Ffactorau Allweddol

- Cymorth gydag arholiadau
- Perthynas gadarnhaol rhwng athrawon a chyfoedion
- Cyflawniad tuag at ddysgu
- Dathlu cryfderau a diddordebau
- Yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu ac ymdeimlad o berthyn
- Mynediad at systemau cymorth emosiynol a chymdeithasol

## Cymryd rhan yn yr ysgol

Pan ofynnwyd iddyn nhw a oedd dysgwyr eisiau cymryd rhan yn yr ysgol, ar draws pob lleoliad, fe wnaethon nhw ymateb gyda 'ie', 'na' a 'mae'n dibynnu'. Gwnaeth y dysgwyr sylwadau fod cryfderau personol athrawon wedi effeithio'n gadarnhaol ar eu hemosiynau a'u cyfranogiad yn yr ysgol gydag *'amser a dreuliwyd gyda hoff athrawon sy'n gwneud i chi chwerthin'*. Fe wnaethant nodi teimlo'n fwy cymwys i gymryd rhan pan oedd y dysgu wedi **teimlo'n greadigol, yn ymarferol a'u bod wedi cael profiadau**. Roedden nhw'n teimlo'n fwy cymwys ac eisiau cymryd rhan fwy pan oedd natur y gwaith yn teimlo'n bwrpasol, yn caniatáu datblygu sgiliau a phan oedd athrawon yn dod o hyd i ffyrdd i'w haddysgu mewn ffyrdd sy'n unigryw i'w harddulliau dysgu a chyfathrebu.

Dywedodd rhai dysgwyr nad yw'n fater o fod eisiau cymryd rhan, ond nad ydyn nhw wedi teimlo eu bod yn gallu gwneud hynny. Rhannodd un dysgwr fod peidio â deall cyfarwyddyd yn gwneud iddyn nhw deimlo nad oedden nhw'n gallu cymryd rhan. Dywedon nhw *'yn yr ysgol maen nhw'n dweud ysgrifennwch hyn hyd yn oed pan nad ydw i'n gwybod beth rwy'n ysgrifennu amdano'*. Mae rhwystrau llythrennedd yn ffactor arall gyda dysgwyr yn ffafrio *'llai o ysgrifennu a dysgu mwy ymarferol'*, tra bod eraill yn dweud, *'mae gwersi yn teimlo'n ddibynnol ar y gloch ac yn aml maen nhw'n teimlo dan bwysau, yn cael eu hatgoffa drwy'r amser i gwblhau'r gwaith gan athrawon'*. Cyfaddefodd y dysgwyr eu bod yn profi rhwystredigaeth a diffyg cymhelliant *'pan fydd y gwaith naill ai'n rhy hawdd neu'n rhy anodd, yn rhy gymhleth neu'n amhosibl'*. Roedd gwersi ac ymyriadau yn cael eu canslo yn annisgwyl neu pan oedd athrawon yn absennol yn gadael dysgwyr yn llai cymwys i ymdopi a chymryd rhan. Rhannodd un dysgwr ag anabledd eu profiad o fynychu sesiwn yn y gampfa lle'r oedd athro nad oedd yn deall eu hanghenion, wedi achosi iddyn nhw deimlo na allent gymryd rhan, ac o ganlyniad wedi arwain iddyn nhw roi'r gorau i'r pwnc hwn. Dywedon nhw, *'Mae gen i anabledd felly doeddwn i ddim yn gallu rhedeg yn gyflym a chadw i fyny, ond roedd yr athro yn meddwl fy mod i'n ddiog. Wnaethon nhw ddim addasu na newid y wers i mi, felly doeddwn i ddim eisiau cymryd rhan yn y diwedd'*.

Dywedodd y dysgwyr fod eu **cyfeillgarwch** yn yr ysgol wedi cefnogi eu cyfranogiad, eu datblygiad a'u hymdeimlad o berthyn. Dywedon nhw fod y cyfeillgarwch hwn wedi mynd y tu hwnt i'r ysgol, i'w cymunedau ac addysg bellach. Tynnodd un dysgwr sylw at yr hyn y mae wedi ei olygu i fod yn rhan o grŵp cyfeillgarwch a sut mae hyn wedi eu cefnogi, gan ddweud *'rydyn ni'n debycach i deulu'*.

### Ffactorau Allweddol

- Athrawon yn cael effaith gadarnhaol ar emosiynau dysgwyr
- Dysgu creadigol, ymarferol a thrwy brofiadau
- Datblygu sgiliau ar gyfer dyheadau yn y dyfodol
- Deall arddulliau dysgu a chyfathrebu unigryw dysgwyr
- Strategaethau addysgu er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn deall
- Digon o amser i gwblhau tasgau sy'n gysylltiedig â gwaith
- Bwlio yn cael ei drin a'i gymryd o ddifrif

# 3. Ynglŷn â’ch dyfodol

## Dyheadau Addysgol

Roedd pob dysgwr â dyheadau naill ai i fynychu’r 6ed **dosbarth, sefydliadau addysg bellach neu fynd i fyd gwaith**. O ran dysgwyr sydd eisiau mynychu’r coleg, roedden nhw’n teimlo y byddai hyn yn golygu mwy o **fynediad at dechnoleg**, cyfleoedd i ddatblygu **ymreolaeth** a chael mwy o **ryddid** o ran arferion. O ran un dysgwr sydd am fynd i fyd gwaith, dywedon nhw fod *‘mwy o gyfle i fod yn rhywun rydych chi eisiau bod’*. Dywedodd un dysgwr sy’n dyheu i fod yn ddylanwadwr cyfryngau chwaraeon, *‘gallwch ennill arian am wneud yr hyn rydych chi’n ei fwynhau ac mae’n llai diflas na’r ysgol’*. Roedd rhai dysgwyr yn gwybod eu dyheadau yn gynnar iawn ac maen nhw bellach ar y llwybr i wneud y trawsnewidiad hwn i’r coleg. Fe wnaethon nhw rannu fod **cefnogaeth emosiynol** gan yr ysgol a **chyngor gyrfaoedd** wedi eu cefnogi i allu cyflawni’r cam hwn.

Mae gan eraill ddyheadau ond yn teimlo’n amwys dros ba lwybr i’w ddewis. Dywedodd dysgwyr sy’n dyheu am fynychu’r coleg y byddai’n golygu amgylchedd mwy aeddfed, gan deimlo eu bod yn cael eu hystyried fel oedolyn, yn profi cyflawniad dysgu, mwy o annibyniaeth a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau. Er eu bod yn cyfaddef eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu yn yr ysgol, rhannodd un dysgwr eu cyffro ar gyfer y coleg eleni gan ddweud, *‘mae’r ysgol wedi teimlo’n ddiflas ers y diwrnod cyntaf, felly nawr, mae’n golygu gwneud rhywbeth rwy’n ei garu, yn hytrach na gwneud rhywbeth mae’n rhaid i chi ei wneud’*.

Dywedodd y dysgwyr mai **cynefindra â pherthnasoedd ac adeiladau**, canlyniadau arholiadau, mwynhau pynciau, cael y sgiliau a’r gefnogaeth angenrheidiol, a **chefnogaeth y teulu**, yw’r hyn sy’n gwneud iddyn nhw deimlo bod eu dyheadau yn gyraeddadwy.

Hefyd, cefnogaeth gan yr ysgol gan gynnwys cyngor gyrfaoedd, trafodaethau gyda chyfoedion a staff yr ysgol, hyfforddiant teithio ac **ymweliadau â’r coleg**. Dywedodd dysgwyr sy’n dyheu am fynychu’r 6ed dosbarth eu bod yn teimlo bod hyn yn bosibl oherwydd bod eu hanghenion wedi’u diwallu. Fodd bynnag, oherwydd y diffyg argaeledd cefnogaeth a chyrsiau addas, nid oedd dyheadau athrawon ar gyfer dysgwyr, bob amser yn cyd-fynd â’r dyheadau oedd gan ddysgwyr ar gyfer eu hunain. Mae rhai dysgwyr â dyheadau i fynd i’r coleg yn cyfaddef eu bod yn **teimlo wedi’u llethu** ac yn poeni am y **dieithrwch a’r ansicrwydd**. Pan ofynnwyd iddyn nhw beth allai fod rhai o’r pryderon hyn, dywedon nhw, *‘pobl eraill yn fy marnu’, ‘a fydd athrawon a myfyrwyr yn garedig’, ‘cael fy mwlio’ a ‘sut le fydd y dosbarth?’*

## Ffactorau Allweddol

- Cynefindra a diogelwch
- Cyngor gyrfaoedd
- Trafodaethau gyda chyfoedion ac athrawon
- Systemau cymorth emosiynol a chymdeithasol
- Hyfforddiant teithio
- Paratoi, cynllunio ac ymweliadau â’r ysgol
- Cefnogaeth y teulu

## Cymryd rhan y tu allan i'r ysgol

Er bod rhai dysgwyr wedi dweud wrthym eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, dywedodd y rhan fwyaf o ddysgwyr wrthym nad ydyn nhw. Pan oedd dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, roedd y rhain yn bennaf yn cael eu harwain gan bobl ifanc ac mewn grwpiau cymdeithasol neu fel rhan o weithgareddau unigol i wella gwell iechyd meddwl.

Yn hytrach na gweithgareddau, rhannodd dysgwyr enghreifftiau o hobïau maen nhw'n cymryd rhan ynddynt. Roedd chwaraeon, gemau cyfrifiadurol a chyfryngau cymdeithasol yn caniatáu iddyn nhw deimlo'n gysylltiedig yn emosiynol, yn angerddol am berfformiad unigol, ymdeimlad o berthyn, cyfleoedd i fod yn gymdeithasol, chwarae a strategeiddio. Gan nad oedd dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, nid oeddent yn gallu nodi sut roedden nhw'n teimlo bod yr ysgol yn eu cefnogi. Dywedon nhw y byddai mynediad at drafnidiaeth, mwy o gyfleoedd a chyfleoedd dilys, yn cefnogi eu hymgysylltiad â gweithgareddau y tu allan i'r ysgol. Lle'r oedd gweithgareddau wedi'u nodi gan rieni, cyfaddefodd rhai dysgwyr eu bod yn teimlo ymddieithriad a diffyg diddordeb. Hefyd, roedd bwlio a byw yng nghefn gwlad yn ffactorau eraill oedd yn cyfrannu at ddiffyg cyfranogiad dysgwyr mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol. Dywedodd rhai dysgwyr fod ysgolion yn gwneud mwy i hyrwyddo cyfranogiad dysgwyr pan oedd yr ysgol yn cael ei chynrychioli, gyda digwyddiadau fel yr Eisteddfod.

### Ffactorau Allweddol

- Dan arweiniad/wedi'i ysgogi gan bobl ifanc
- Trafnidiaeth
- Diddordeb mewn gweithgareddau/cyfleoedd
- Byw yng nghefn gwlad
- Bwlio

**Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Plant yng Nghymru i archwilio'r meysydd hyn yn ddyfnach yn ystod ei blwyddyn olaf a nodi llwybrau i rannu llais a safbwyntiau plant a phobl ifanc gydag ymarferwyr, ysgolion a lleoliadau.**

